



Cardiff  
Metropolitan  
University

Prifysgol  
Metropolitan  
Caerdydd

# **MSc Rheoli Prosiectau**

**Ysgol Reoli Caerdydd**

**Gwybodaeth am y Cyfnod Cynefino ac Ymrestru**

**Blwyddyn Academaidd 2018/2019**

## **C Y N N W Y S**

- 1. Croeso oddi wrth Gyfarwyddwr y Rhaglen**
- 2. Ymrestru / Casglu cerdyn adnabod**
- 3. Amserlen yr Wythnos Gynefino / Beth i'w ddisgwyl pan fyddwch yn cyrraedd**
- 4. Presenoldeb / Amserlen**
- 5. Cysylltiadau defnyddiol**
- 6. Sefydliadau Proffesiynol Rheoli Prosiectau ac Aelodaeth**

## 1. Croeso oddi wrth Gyfarwyddwr y Rhaglen

Rwyf yn falch iawn eich bod wedi penderfynu ymuno â rhaglen MSc Rheoli Prosiectau Prifysgol Metropolitan Caerdydd; mae'n amlwg bod llawer ohonoch wedi eich denu wrth feddwl am ymuno â sefydliad dynamig sydd â dyfodol gwych yn amlwg iddo.

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd, sydd wedi'i lleoli mewn prifddinas Ewropeaidd fyrlymus, yn brifysgol fodern a llewyrchus. Mae'n rhan annatod o ddinas Caerdydd ers dros 150 o flynyddoedd ac rydym yn parhau i fuddsoddi yn nyfodol ein myfyrwyr drwy ganolbwyntio ar gyflogadwyedd myfyrwyr ac ar wella profiad y myfyrwyr, gan gynnig cyfleoedd addysg a hyfforddiant o'r safon uchaf i fyfyrwyr a ddaw o fwy na 140 o wledydd o bob rhan o'r byd.

Mae pob un o'n Hysgolion yn arbenigo mewn cyrsiau sydd â gogwydd at yrfaedd ac sydd wedi'u dylunio ar y cyd â busnes a diwydiant. Mae pob Ysgol yn ymgymryd â llawer o waith ymchwil a gweithgareddau menter yn eu meysydd ac yn cynnig amgylchedd astudio ffyniannus ar gyfer ein myfyrwyr. Mae ein timau academaidd yn flaengar yn eu meysydd ac yn cael eu cefnogi i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau drwy gynllun adolygu a datblygu staff y Brifysgol.

Mae ein safonau academaidd uchel, gweithio mewn partneriaeth â'n myfyrwyr, datblygu a phlannu dysgu ac asesu wedi'u gwella gan dechnoleg, a'n haddysgu wedi'i oleuo gan ymchwil, i gyd wrth wraidd ein dulliau dysgu, addysgu ac asesu.

Ein hamcan yw datblygu graddedigion creadigol, gwydn a deniadol a fydd â'r doniau, y sgiliau a'r profiadau a fydd yn eu galluogi i effeithio ar y proffesiwn neu'r llwybr o'u dewis. Bydd dysgu ac addysgu bob amser yn greiddiol i'r hyn a wnawn yma ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd a'n gobaith yw y byddwch yn profi'n llawn ein hymdrechion i gynnal cyswllt personol o fewn amgylchedd dysgu cyfeillgar a chefnogol.

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn brifysgol sydd â gogwydd at ymchwil a busnes. Mae ymchwil yn greiddiol i Met Caerdydd a'i Hysgolion, gan wneud ymchwil sy'n flaengar o ran creu a chymhwyso gwybodaeth newydd. Gall ymchwil y brifysgol a'i record ardderchog mewn ymchwil cymhwysol, a chefnogaeth cronfa gref o arbenigedd ac ysgolheictod uwch, gael ei gymhwyso ar gyfer busnes, diwydiant, y proffesiynau a'r gymuned yn gyffredinol.

Â'n dull sydd â'i ogwydd at fusnes, bydd Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn canolbwyntio ar anghenion diwydiant, masnach a sefydliadau y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol. Bydd ein cronfa ymchwil ac addysgu gref yn rhoi llwyfan ar gyfer datblygu ystod eang o wasanaethau a fydd yn berthnasol i lawer math o ddiwydiannau.

Rydym yn Brifysgol Fyd-eang go iawn sydd â'n lle yn Brifysgol Orau yn y DU am gefnogi myfyrwyr rhyngwladol yn gyffredinol am chwe blynedd yn olynol. Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn ymfalchïo yn y ffaith ei bod yn addysgu myfyrwyr o fwy na 140 o wledydd o bob rhan o'r byd a'i bod yn gysylltiedig â nifer o bartneriaid uchel eu safon yn y DU ac yn rhyngwladol.

Mae ein rhaglen MSc Rheoli Prosiectau yn unigryw ac yn nodedig gan ei bod wedi'i dylunio a'i datblygu mewn aliniad â chyrrff proffesiynol allweddol mewn Rheoli Prosiectau, APM (Association of Project Management) a PMI (Project Management Institute), meysydd gwybodaeth a fframwaith cymwyseddau sy'n berthnasol i feysydd a chyd-destunau prosiectau.

Mae Rheoli Prosiectau yn sgil bywyd. Mae manteision a gwerth enfawr i Reoli Prosiectau fel y gallwn ddeall. Mae cwmnïau yn troi at Reoli Prosiectau i sicrhau canlyniadau busnes yn gyson ac i edrych am ffordd i ennill y blaen ar y dorf yn yr economi fyd-eang, gystadleuol, anodd a di-drefn heddiw drwy brosiectau, sydd yr un mor bwysig er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd strategol a gweithrediadol. Mae gan weithwyr prosiectau proffesiynol sy'n dod o wahanol gyfnodau yn eu gyrfaedd rôl allweddol o ran cyflawni canlyniadau busnes a'r manteision a fydd ar gael wrth i brosiectau lwyddo ac, yn rhesymegol, dyna'r ffordd y bydd strategaethau rheoli prosiectau yn gyrru llwyddiant sefydliadau.

Mae ein MSc Rheoli Prosiectau yn darparu ar gyfer ystod eang o sectorau a meysydd gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus, preifat, elw, ariannol, cyfreithiol, sefydliadau di-elw a rhai anlywodraethol (NGOs/Elusennau) gan fod y technegau a'r offer yn debyg ac fe gewch y cyfle i'w defnyddio'n effeithiol ac yn adeiladol mewn gwahanol gyd-destunau ystyrllon. Byddwn yn defnyddio dull strwythuredig yn y rhaglen hon i gael gwella eich astudio, eich dysgu a'ch datblygiad. Yn ogystal byddwn yn ymdrin â Rheoli Rhaglenni, Rheoli Prosiectau Strategol, a Rheoli Portffolios. Mae cydbwysedd da yn y rhaglen MSc Rheoli Prosiectau yma rhwng theori, ymarfer, pobl, prosesau, offer, technegau, dulliau, methodolegau, fframweithiau, llywodraethu a rheolaeth, cynladwyedd, rheoli cymhlethdodau mewn prosiectau enfawr, technoleg ac arloesedd.

Mae'r sefydliadau mwyaf pwysig ar draws sectorau a ffiniau daearyddol yn raddol dderbyn rheoli prosiectau yn ffordd i reoli gwariant ac i wella canlyniadau prosiectau. Pan ddechreuodd y dirwasgiad, gwasgfa gredyd, amodau'r farchnad a oedd yn hollol newydd, risgiau anhysbys, pwysau ar arbedion effeithlonrwydd, mentrau anferth i dorri costau, cwotgi a gwneud mwy gyda llai, gweithredu mewn amgylchedd prisiau isel, daeth yr arfer yma hyd yn oed yn fwy pwysig. Darganfu sefydliadau fod cadw at ddulliau a strategaethau rheoli prosiectau yn lleihau risgiau, yn torri costau ac yn gwella cyfraddau llwyddo, yn rhoi'r gallu i oresgyn yr amgylchedd busnes eithafol gystadleuol a chyfnewidiol, a phob un o'r rhain yn hollbwysig er mwyn parhau yn yr argyfwng economaidd a'r ansicrwydd i fusnesau. Mae Rheoli Prosiectau yn offeryn effeithiol i reoli parhad busnes yn gynaliadwy, gwydnwch busnes a chynllunio dilyniant ac, yn allweddol, werth am arian. Mae'n amhosib pwysleisio digon berthnasedd, blaenoriaeth, mantais a gwerth y radd MSc Rheoli Prosiectau yma.

Fel yn achos pob arweinydd yn y farchnad, bydd rhaid i ni wella'n gyson i gael aros ar y blaen. Yn ystod eich cyfnod gyda ni, byddwch yn elwa o fod ag amrywiaeth o bethau newydd yn y rhaglen. Gallwch ddisgwyl cael eich herio, eich gwrthio a'ch ymestyn, rhywbeth sy'n beth naturiol i'w ddisgwyl gan gwrs Meistr a Addysgir i Raddedigion yn y DU. Yn yr un modd gallwch ddisgwyl i'r manteision fod yn rhai enfawr.

Mae byd busnes a rheoli yn gyffrous ynddo'i hun. Mae rheoli prosiectau yn broffesiwn sy'n tyfu'n gyflym a bydd y galw amdano yn parhau i gynyddu yn y dyfodol hefyd. Mae Tîm Academaidd y Rhaglen a minnau yn edrych ymlaen at gael rhannu cyffro a brwdfrydedd y pwnc gyda chi. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr hefyd at gael eich helpu i gyrraedd eich potensial llawn yn weithwyr proffesiynol rheoli prosiectau llwyddiannus. Byddwn yn rhoi cyfle i chi fod yn agored i syniadau, cysyniadau, cyd-destunau, ffeithiau, pethau newydd, creadigrwydd, fframweithiau, offer a thechnegau o fewn y prosiectau ac amgylchedd rheoli prosiectau. Rydym yn gobeithio hefyd eich helpu i ddysgu beth sy'n iawn i chi. Bydd eich dysgu yn mynd yn ôl i'r gweithle mewn ffordd go iawn.

Un o nodweddion deniadol a chryfaf y rhaglen fydd y gofal dros gymorth a lles y myfyrwyr. Y gobaith yw na wnawn fyth golli golwg ar y gofal hwnnw. Os byddwch yn dod ar draws unrhyw broblemau na allwch eu datrys eich hunan – a dylech, wrth gwrs, geisio eu datrys eich hunan i ddechrau – yna efallai y byddwch am gysylltu â'n tîm addysgu/gweinyddu MSc Rheoli Prosiectau, gwasanaethau myfyrwyr, naill ai ar ebost neu dros y ffôn. Rydym yn sefydliad sy'n myfyriwr-gyfeillgar iawn ac mae'r tîm addysgu yn dîm hawdd mynd atyn nhw. Mae ansawdd profiad dysgu a siwrnai'r myfyrwyr yn ganolog i bopeth a wnawn yma ym Met Caerdydd.

Gan ddymuno pob llwyddiant i chi yn ystod y flwyddyn nesaf gyda ni!



Dymuniadau gorau

Mr. Langes Supramaniam ([lsupramaniam@cardiffmet.ac.uk](mailto:lsupramaniam@cardiffmet.ac.uk))

Cyfarwyddwr y Rhaglen MSc Rheoli Prosiectau

BEng (Anrh) Peirianeg Sifil, MSc Peirianeg Sifil, PgCERT HELT, FHEA, MRICS (Syrfêwr Siartredig), FCABE C Build E (Cymrawd Siartredig Peirianwyr Adeiladu), CQP MCQI (Proffesiynolyn Ansawdd Siartredig), MCILT (Logistegydd Siartredig), CITP MBCS (Proffesiynolyn TG Siartredig), Ymarferydd Prince2, Ymarferydd PM4SD (Rheoli Prosiectau ar gyfer Datblygu Cynaliadwy), PMP

## 2. Ymrestru / Casglu Cardiau Adnabod

### Ymrestru

Mae ymrestru yn broses hanfodol a fydd yn cadarnhau eich statws yn fyfyrwr Met Caerdydd ac yn rhoi mynediad i chi i systemau TG Met Caerdydd, gan gynnwys Moodle (llwyfan dysgu Met Caerdydd), talu ffioedd ac, yn bwysig, bydd yn eich galluogi i gael eich MetGerdyn.

Gallwch gwblhau'r broses Hunan-Ymrestru ar-lein oddi ar unrhyw gyfrifiadur drwy system Hunan Wasanaeth Met Caerdydd pan fyddwch wedi derbyn eich **Ebost Ymrestru**.

Pan gewch eich Ebost Ymrestru, dechreuwch y broses hunan-ymrestru drwy fynd i'r tudalen gwe [www.cardiffmet.ac.uk/enrolment](http://www.cardiffmet.ac.uk/enrolment) a dilyn y canllawiau cam-wrth-gam a fydd wedi'u darparu. Er mwyn cael mynediad i'r adran Ymrestru ar system Hunan Wasanaeth Met Caerdydd, bydd angen i chi fewngofnodi gydag enw defnyddiwr a chyfrinair. **Rhowch yr un enw defnyddiwr a'r cyfrinair i mewn ag y gwnaethoch eu defnyddio yn wreiddiol er mwyn ymgeisio.** Mae canllawiau wedi'u darparu os byddwch wedi anghofio'r enw defnyddiwr/ cyfrinair. Noder: er mwyn Hunan-Ymrestru, rhaid i'ch statws gyda Met Caerdydd fod yn **UF (Pendant Di-amod)** h.y. rhaid boddhau pob amod a rhaid bod wedi derbyn lle.

### 3. Amserlen yr Wythnos Gynefino/Beth i'w ddisgwyl pan fyddwch yn cyrraedd

#### Rhaglen Gynefino MSc Rheoli Prosiectau

#### Sesiwn 2018/2019 (Dechrau Hydref 2018)

\*Noder: Sesiwn 2018/2019 (Dechrau yn Chwefror 2019), edrychwch ar nodyn 3 isod

Sesiynau	Diwrnod/Amser (enghreiffiol)	Hwylusydd	Rhif yr Ystafell	Sylwadau
MSc Rheoli Prosiectau – Croeso, Cyflwyniad, Gwybodaeth am y Cwrs (A – Z)	Hydref 1 <sup>af</sup> 2018 11:00 – 13:00	Langes	I'w gadarnhau	Ysgol Reoli, Campws Llandaf. Gan gynnwys taith o gwmpas y Campws / Ysgol
MSc – Disgwyliadau a Sgiliau Academaidd Astudio Ôl-raddedig (Synthesis o Lenyddiaeth, Meddwl Beirniadol a Gwerthuso Beirniadol)	Hydref 2 <sup>il</sup> 2018 11:00-13:00	Mike/Langes	I'w gadarnhau	Sgiliau MSc Astudio Ôl- raddedig a disgwyliadau pendant, bod yn fedrus ac yn ymarferol, rhai gwiriadau realiti, plannu cynllunio ymlaen yn eich astudio a'ch dysgu
Trafodaeth – Cyflwyniad i Reoli Prosiectau	Hydref 2 <sup>il</sup> 2018 14:00 – 16:00	Mike (I'w gadarnhau)	I'w gadarnhau	Mike i hwyluso
Gweithdy Llyfrgell, Taith Llyfrgell a Gwybodaeth Gyffredinol am y Llyfrgell	Hydref 3 <sup>ydd</sup> 2018 11:00-13:00	Jamie Finch, Llyfrgell	I'w gadarnhau	Cronfeydd data, Metchwiliad, Chwiliad llenyddol, Cyfeirio, Dyfyniadau, ansawdd chwiliadau a chyfeiriadau MSc Astudio Ôl-raddedig, mireinio a mireinio pellach
Addasu Bywyd yn y DU, Arferion Proffesiynol	Hydref 4 <sup>ydd</sup> 2018 11:00 – 13:00	Mike	I'w gadarnhau	
Addasu Bywyd mewn AU – Rheoli Disgwyliadau  Turnitin a Llên-ladrad – Peidiwch â'i wneud	Hydref 4 <sup>ydd</sup> 2018 14:00 – 15:00	Tîm Lles y Swyddfa Ryngwladol	I'w gadarnhau	
Cyflwyniad i APM & PMI (Cymdeithas Rheoli Prosiectau a Sefydliad Rheoli Prosiectau)	Hydref 5 <sup>ed</sup> 2018 11:00 – 13:00	Aelod o Bwyllgor Cangen De Cymru a Gorllewin Lloegr	I'w gadarnhau	Cyflwyno a mynd drwy APM (A–Z) Aelodaeth Myfyriwr APM Cymwysterau Proffesiynol APM

<p>PRINCE2 AXELOS Cyflwyniad</p> <p>PM4SD (Rheoli Prosiectau ar gyfer Datblygu Cynaliadwy) APMG</p>		<p>Aelod o Bwyllgor y DU, PMI</p> <p>I'w gadarnhau</p> <p>I'w gadarnhau</p>		<p>Digwyddiadau cangen De Cymru a Gorllewin Lloegr APM</p> <p>PMI Byd-eang a Siapter y DU: Cyflwyniad (A-Z) Aelodaeth Myfyriwr PMI Cymwysterau Proffesiynol PMI Digwyddiadau Siapter y DU, PMI</p>
<p>Darllen Beirniadol, Meddwl Beirniadol Ysgrifennu Beirniadol</p>	<p>Hydref 5<sup>ed</sup> 2018 14:00 – 16:00</p>	<p>Julia Fallon</p>	<p>I'w gadarnhau</p>	<p>Sgiliau Academaidd: Darllen, Meddwl, Ysgrifennu Beirniadol</p>

#### Noder:

1. Mae'r sesiynau hyn yn rhai enghreifftiol, gallai'r sesiynau/diwrnodau/amser newid, cael eu symud ymlaen/yn ôl, eu hadolygu neu eu diweddarau, a bydd rhaid iddynt gael eu cadarnhau o hyd. Fe wnawn roi gwybod i'r myfyrwyr **cyn gynted â phosib** os bydd hyn yn digwydd.
2. Mae'n **ORFODOL** dod i'r holl sesiynau cynefino **er mwyn SICRHAU EICH BOD YN DEALL YN GLIR SUT I REOLI EICH ASTUDIO A'CH DYSGU O'R DECHRAU I'R DIWEDD YN Y RHAGLEN HON, SUT I FOD YN DDYFEISGAR, GAN YMDOPI MEWN FFORDD YSTYRLON Â DISGWYLIADAU ASTUDIO AR GYFER GRADD MEISTR A ADDYSGIR.**
3. \* Bydd sesiynau cynefino myfyrwyr Chwefror 2019 yn debyg i'r rhai uchod (mae cafeat 1 uchod yn dal i fod yn berthnasol). Caiff y manylion (diwrnodau, amserau ac ystafelloedd ) eu cadarnhau yn fuan.

**Darllenwch y Wybodaeth Ymuno yma gyda'r dogfennau canlynol:**

[Y Llawlyfr Academaidd 2017/18](#)

[Llawlyfr y Myfyrwyr 2018/2019](#)

[Siarter y Myfyrwyr](#)

#### 4. Presenoldeb / Amserlen

Mae'r amserlen yn un enghreifftiol a chaiff ei chadarnhau'n derfynol cyn dechrau'r flwyddyn academiaidd nesaf (2018/2019). Caiff copi ei anfon atoch cyn gynted ag y bydd ar gael. Cynhelir Darlithoedd a Seminarau (POB UN yn wyneb-yn-wyneb) ar hyd yr wythnos (am 12 wythnos) yn Semester 1 a Semester 2.

**Mae 8 MODIWL CRAIDD A 3 SEMESTER yn yr MSc Rheoli Prosiectau yma.**

**MAE POB UN O'R 8 MODIWL YN ORFODOL ER MWYN CWBLHAU'R RHAGLEN HON YN LLWYDDIANNUS.**

Mae'r manylion ar gael isod.

**Noder:**

**Mae'n GWBL ORFODOL bod yn bresennol ym mhob un o'r Darlithoedd, y Seminarau, y Tiwtorialau a'r Gweithdai a fydd ar yr amserlen. NID OES EITHRIAD I'R RHEOL HON. Mae cydberthyniad agos rhwng perfformiad myfyrwyr a'u presenoldeb rheolaidd, eu cyrhaeddiad a chwblhau eu cwrs yn llwyddiannus.**

**YR UNIG FFORDD y gallwch ddysgu a datblygu yw pan fyddwch yn gweithio'n agos gyda'ch darlithwyr, eich tiwtoriaid a'ch cydfyfyrwyr.**

Yn gyffredinol, fel canllaw rydych yn edrych ar y canlynol:

**Bydd yr addysgu'n dechrau yn ystod wythnos Hydref 8<sup>fed</sup> 2018 (ar gyfer carfan Hydref 2018).**

**Bydd yr addysgu'n dechrau yn ystod wythnos Chwefror 4<sup>ydd</sup> 2019 (ar gyfer carfan Chwefror 2019) – Noder: bydd y drefn ar gyfer y rhai a fydd yn dechrau yn Chwefror 2019 ar gael yn fuan neu cysylltwch â Chyfarwyddwr y Rhaglen.**

**Dechrau Hydref 2018:**

**Modiwlau Semester 1 (yn rhedeg o Hydref 2018 hyd Ionawr 2019);**

**Cynhelir y cyfnod cynefino yn ystod wythnos Hydref 1<sup>af</sup> 2018**

**Bydd addysgu Semester 1 yn dechrau yn ystod wythnos Hydref 8<sup>fed</sup> 2018**

**Bydd yr Ysgol ar gau rhwng Rhagfyr 17<sup>eg</sup> 2018 a Ionawr 6<sup>ed</sup> 2019 ar gyfer Gwyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.**

**Bydd Semester 1 yn ail-ddechrau yn ystod wythnos Ionawr 7<sup>fed</sup> 2019.**

**3 Modiwl yn Semester 1:**

MPM7001: Theori ac Ymarfer Rheoli Prosiectau

Darlith 2 awr a Seminar 2 awr

MPM7002: Arwain Prosiectau

Darlith 2 awr a Seminar 2 awr

MPM7003: Rheoli Prosiectau Strategol

Darlith 2 awr a Seminar 2 awr

Ar gyfer pob un o'r tri modiwl uchod byddwch yn cael cyfuniad o ddarlithoedd a seminarau wyneb-yn-wyneb, sesiynau gweithdai yn cael eu gyrru gan y myfyrwyr, sesiynau adolygu prosiectau, gweithgareddau



fforwm ar-lein (Moodle) ac amrywiaeth o weithgareddau astudio a dysgu. Cynhelir asesiadau crynodol (wedi'u hasesu'n ffurfiol) yn ystod Tachwedd 2018, Rhagfyr 2018 a Ionawr 2019. Bydd amserlen asesu ar gyfer y flwyddyn academaidd yn cael ei rhoi i chi yn ystod yr wythnos gynefino. Bydd angen i chi fod yn rhagweithiol iawn yn y gwaith paratoi, cynllunio a chwblhau'r asesiadau yn y pen draw gan y bydd nifer o bethau i'w cyflwyno ar hyd semester 1. Fformat yr asesiadau fydd adroddiad, log adfyfyriol, cyflwyniadau tîm a chynhyrchu Siarter Prosiect.

Bydd disgwyl i'r myfyrwyr ymgymryd ag astudio a dysgu hunan-gyfeiriedig ac annibynnol, gan ddefnyddio amrywiaeth eang o adnoddau a fydd ar gael o'n llyfrgelloedd ac o fannau cyhoeddus.

Mae Arweinydd Modiwl (Darlithydd) yn hwyluso pob modiwl ac o ran unrhyw ymholiadau, fydd dim gwahaniaeth pa mor fach, fawr neu ddibwys y bydd yr ymholiad, dylech gysylltu â nhw i ddechrau ac fe wnawn nhw eich cyfeirio i'r man iawn. Ar gyfer materion mwy o faint/ eglurhad ar lefel rhaglen, cysylltwch â Chyfarwyddwr y Rhaglen.

### **Modiwlau Semester 2 (yn rhedeg o Chwefror 2019 – Mai 2019);**

**Bydd addysgu Semester 2 yn dechrau yn ystod wythnos Chwefror 4<sup>ydd</sup> 2019**

**Ni fydd unrhyw ddarlithoedd a seminarau nac unrhyw fath o addysgu rhwng wythnos Ebrill 8<sup>fed</sup> ac wythnos Ebrill 22<sup>ain</sup> 2019, sef tair wythnos o wyliau dros y Pasg.**

**Bydd Semester 2 yn ail-ddechrau yn ystod wythnos Ebrill 29<sup>ain</sup> 2019.**

#### **4 Modiwl yn Semester 2:**

MPM7004: Rheoli Risgiau Prosiectau

Darlith 2 awr a Seminar 2 awr

MPM7005: Rheoli Masnachol Prosiectau

Darlith 2 awr a Seminar 2 awr

MPM7006: Pethau Newydd mewn Rheoli Prosiectau

Darlith 2 awr a Seminar 2 awr

MPM7007: Rheoli Prosiectau Enfawr a Chymleth

Darlith 2 awr a Seminar 2 awr

Ar gyfer pob un o'r pedwar modiwl uchod byddwch yn cael cyfuniad o ddarlithoedd a seminarau wyneb-yn-wyneb, sesiynau gweithdai yn cael eu gyrru gan y myfyrwyr, sesiynau adolygu prosiectau, gweithgareddau fforwm ar-lein (Moodle) ac amrywiaeth o weithgareddau astudio a dysgu eraill. Cynhelir asesiadau crynodol hefyd (wedi'u hasesu'n ffurfiol) yn ystod Mawrth 2019, Ebrill 2019 a Mai 2019. Bydd amserlen asesu ar gyfer y flwyddyn academaidd yn cael ei rhoi i chi yn ystod yr wythnos gynefino. Bydd angen i chi fod yn rhagweithiol iawn yn y gwaith paratoi, cynllunio a chwblhau'r asesiadau yn y pen draw gan y bydd nifer o bethau i'w cyflwyno ar hyd semester 2. Fformat yr asesiadau fydd adroddiad astudiaeth achos, adroddiad adfyfyriol, cyflwyniadau tîm a Phoster.

Bydd disgwyl i'r myfyrwyr ymgymryd ag astudio a dysgu hunan-gyfeiriedig ac annibynnol, gan ddefnyddio amrywiaeth eang o adnoddau a fydd ar gael o'n llyfrgelloedd ac o fannau cyhoeddus.

Mae Arweinydd Modiwl (Darlithydd) yn hwyluso pob modiwl ac o ran unrhyw ymholiadau, fydd dim gwahaniaeth pa mor fach, fawr neu ddibwys y bydd yr ymholiad, dylech gysylltu â nhw i ddechrau ac fe wnawn nhw eich cyfeirio i'r man iawn. Ar gyfer materion mwy o faint/ eglurhad ar lefel rhaglen, cysylltwch â Chyfarwyddwr y Rhaglen.

### **Modiwlau Semester 3 (yn rhedeg rhwng Mehefin 2019 a Medi 2019)**

#### **Y modiwl olaf yn Semester 3**

#### **MPM7008: Prosiect *Capstone* yn Semester 3**

Gweithdai wyneb-yn-wyneb a goruchwylio prosiectau unigol gan oruchwyliwr academiaidd. Bydd Goruchwyliwr Academiaidd yn cael ei neilltuo i chi a fydd yn eich tywys drwy'r gofynion angenrheidiol i chi gael symud ymlaen a chwblhau'r modiwl hwn yn llwyddiannus.

Cewch ragor o fanylion o ran y disgwyliadau a'r gofynion yn ystod Semester 3.

**Gwneir pob asesiad ar gyfer pob modiwl ar ffurf gwaith cwrs ysgrifenedig. DOES DIM arholiad yn y rhaglen hon neu yn unrhyw un o'r modiwlau sydd wedi'u cynnwys yn y rhaglen.** Gallai'r gwaith cwrs fod yn adroddiad ysgrifenedig, log adfyfyriol, cyflwyniad tîm ac unigol, poster, adroddiad astudiaeth achos ac adroddiad adfyfyriol.

Cewch eich cyngori ynglŷn â gofynion, fformat, strwythur, ehangder a dyfnder penodol gan Arweinwyr y Modiwlau (Darlithwyr) perthnasol. Bydd angen cyfeirio unrhyw ymholiadau ynglŷn ag asesiad unrhyw fodiwl at Arweinydd y Modiwl yn y lle cyntaf.

#### ***Noder:***

***Bydd trefn wahanol gan y rhai fydd yn dechrau yn Chwefror 2019; cysylltwch â Chyfarwyddwr y Rhaglen i gael rhagor o wybodaeth. Byddwch yn gwneud yr un modiwlau yn union â'r uchod.***

### **MONITRO PRESENOLDEB:**

#### **YN BERTHNASOL I SEMESTER 1, 2 A 3:**

**MAE PRESENOLDEB YM MHOB UN O'R DARLITHOEDD A'R SEMINARAU AR YR AMSERLEN, GAN GYNNWYS CYMRYD RHAN MEWN ASESIAU FFURFIANNOL A CHRYNODOL, YN ORFODOL.**

Gallwch ddeall yn iawn na ellir cyflawni astudio a dysgu ystyrion heb fynd i BOB UN o'r sesiynau ar yr amserlen (darlithoedd a seminarau) a heb ymwneud â phob math o ryngweithio ffurfiol ac anffurfiol ar hyd y rhaglen.

Mae perthynas uniongyrchol rhwng presenoldeb myfyrwyr a'r myfyrwyr yn cwblhau'r modiwlau / rhaglen yn llwyddiannus.

**DOES DIM EITHRIAD I'R RHEOL HON.**

## 5. Dolenni defnyddiol

- [Y Llawlyfr Academaidd](#)
- [Llety](#)
- [Costau Ychwanegol](#)

Costau ychwanegol yw unrhyw dreuliau gorfodol neu opsiynol, ar ben y ffioedd dysgu, y bydd angen eu talu gan fyfyrwyr iddyn nhw gael cymryd rhan lawn a chwblhau eu hastudiaethau.
- [Polisi Derbyn](#)
- [Cysgodfa Beiciau](#)

Wedi i chi gyrraedd y campws a chasglu eich cerdyn adnabod byddwch yn gallu gofyn am fynediad i'r gwahanol gysgodfeydd beiciau o gwmpas y campwsau.
- [Mapiau'r Campws a'r MetWibiwr](#)
- [Newyddion Met Caerdydd](#)
- [Chwaraeon a Chyfleusterau Met Caerdydd](#)
- [Undeb Myfyrwyr Met Caerdydd](#) *gan gynnwys gwybodaeth a breichledau i'r myfyrwyr glas*
- [Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd](#)

Os bydd eich rhaglen yn golygu y bydd rhaid i chi ddod i gysylltiad â phlant neu â phobl ifanc neu bobl fregus, bydd rhaid i chi fod wedi cael gwiriad cofnodion troseddol yn rhan o'ch cynnig.
- [Iechyd Galwedigaethol](#)

Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth lechyd a Diogelwch bresennol, bydd gofyn i bob myfyriwr a fydd yn cymryd rhaglen sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn Ysgol Gwyddorau Iechyd Caerdydd (â chydran lleoliad clinigol yn rhan o'r rhaglen), gymryd rhan mewn asesiad Sgrinio Iechyd Galwedigaethol gorfodol. Yn ogystal, bydd yn ofynnol bod rhai cyrsiau'n cydymffurfio â rhaglen frechu ac imiwneiddio'r Adran Iechyd.
- [Cyllid Myfyrwyr](#)

I gael gwybodaeth ar ffioedd dysgu, disgownt cyn-fyfyrwyr, benthyciadau ac ysgoloriaethau, yn ogystal â gwybodaeth gyswllt ar gyfer Gwasanaeth Cynghori Ariannol y Myfyrwyr.
- [Llawlyfr y Myfyrwyr](#)
- [Gwasanaethau Myfyrwyr](#)

I gael cymorth yn ystod eich amser gyda ni o ran eich iechyd, lles, dull byw a gyrfa yn y dyfodol. Y nod yw rhoi'r holl gymorth sydd ei angen arnoch i chi er mwyn sicrhau y bydd eich astudiaethau mor bleserus a llwyddiannus â phosib. Bydd y Gwasanaethau hefyd yn cynnwys cynghori personol, anableded a'r gaplaniaeth.
- [Dyddiadau'r Tymhorau](#)
- [Rhith Deithiau](#)

Mynnwch olwg arall o gwmpas ein campws a'n cyfleusterau gyda'n rhith deithiau tywys

## 6. Sefydliadau Rheoli Prosiectau ac Aelodaeth:

Mae tri phrif gorff cydnabyddedig ar gyfer rheoli prosiectau sy'n cynnig amrywiaeth o fethodolegau arfer orau, egwyddorion, cymwysterau a thystysgrifau ynghyd ag aelodaeth broffesiynol. Mae'n galonid bod

tipyn o orgyffwrdd o ran yr hyn mae pob un o'r tri chorff hyn yn ei ystyried yw'r arfer orau o ran rheoli prosiectau.

Mae'r gwahaniaethau rhwng y tri chorff yn tueddu i fod yn fwy cysylltiedig â lefel, ffocws, ehangder a dyfnder yr egwyddorion, prosesau, technegau a dulliau rheoli prosiectau yn hytrach na bod unrhyw farn neu syniadau sydd i bob pwrpas yn tynnu'n groes o ran rheoli prosiectau arfer orau.

Dyma'r tri phrif gorff rheoli prosiectau cydnabyddedig:

**1. APM (Association for Project Management)** – Nod APM yw datblygu a hyrwyddo rheoli prosiectau ar draws pob sector diwydiant. Wrth wraidd ethos APM mae APM BoK (Corff Gwybodaeth APM) yn ei 6<sup>ed</sup> argraffiad. Mae'n cynnwys chwe deg naw maes gwybodaeth sy'n ofynnol er mwyn rheoli unrhyw brosiect yn llwyddiannus. Mae APM BoK yn cynnig fframwaith ac egwyddorion allweddol ar gyfer rheoli prosiectau.

**2. PMI (Project Management Institute)** – Wrth wraidd athroniaeth PMI mae 'A Guide to the Project Management Body of Knowledge (PMBOK Guide)' yn ei 6<sup>ed</sup> argraffiad. Mae PMBOK Guide yn cynnwys prosesau a thechnegau craidd ar gyfer rheoli prosiectau ac mae hefyd yn cynnwys cyfrifoldeb proffesiynol sy'n cwmpasu'n sylweddol 10 maes gwybodaeth. Mae sawl Safon Sylfaenol arall (The Standard for Program Management, 4<sup>ydd</sup> Argraffiad, The Standard for Portfolio Management, 4<sup>ydd</sup> Argraffiad, Organisational Project Management Maturity Model (OPM3) 3<sup>ydd</sup> Argraffiad a'r PMI Guide to Business Analysis), Safonau Ymarfer (Practice Standard for Project Risk Management, Practice Standard for Earned Value Management, 2<sup>il</sup> Argraffiad, Practice Standard for Project Configuration Management, Practice Standard for Work Breakdown Structure, Practice Standard for Scheduling, 2<sup>il</sup> Argraffiad, Practice Standard for Project Estimating and Project Manager Competency Development Framework, 3<sup>ydd</sup> Argraffiad) a Fframweithiau a Chanllawiau Ymarfer (Agile, Requirements Management, Governance of Portfolios, Programs and Projects, Business Analysis for Practitioners, Implementing Organisational Project Management, Navigating Complexity and Management Change in Organisations).

**3. AXELOS** – perchnogion dull PRINCE2 ar gyfer rheoli prosiectau. Acronym yw PRINCE2 am *Projects In Controlled Environments*. Mae PRINCE2 yn ddull strwythuredig proses-seiliedig er mwyn rheoli prosiectau yn effeithiol. Cwmni cyd-fenter yw AXELOS, wedi'i greu yn 2013 gan Swyddfa'r Cabinet ar ran Llywodraeth Ei Mawrhydi yn y DU a Capita plc, i reoli, datblygu a thyfu'r portffolio Arferion Gorau Byd-eang. Mae record lwyddiannus iawn gan AXELOS eisoes a phortffolio heb ei ail o gymwysterau arfer orau sy'n cael eu cydnabod yn fyd eang.

Mae AXELOS yn gyfrifol am ddatblygu, gwella a hyrwyddo nifer o fethodolegau arfer orau a ddefnyddir yn fyd eang gan bobl broffesiynol sy'n gweithio yn bennaf ym meysydd rheoli prosiectau, rhaglenni a phortffolios, rheoli gwasanaeth TG a seibergadernid.

Mae'r methodolegau, gan gynnwys ITIL®, PRINCE2®, MSP® a'n casgliad o gynhyrchion arfer orau seibergadernid, RESILIA®, yn cael eu mabwysiadu gan sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol mewn mwy na 150 o wledydd i wella sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd cyflogaion er mwyn gwneud i unigolion a sefydliadau weithio'n fwy effeithiol.

Mae AXELOS yn ymrwymedig i feithrin cymunedau arfer orau yn fyd-eang. Yn ogystal â chymwysterau a gydnabyddir yn fyd eang, bydd AXELOS yn rhoi i weithwyr proffesiynol amrywiaeth eang o gynnwys, templedau a pheccynnau cymorth.

## **7. PM4SD (Project Management for Sustainable Development) APMG**

Mae Ysgol Reoli Caerdydd bellach yn Sefydliad Hyfforddi Achrededig wedi'i ardystio gan APMG Rhyngwladol i gyflawni'r fethodoleg rheoli prosiectau arloesol. Mae methodoleg PM4SD, sydd wedi'i

chymeradwyo a'i chydabod gan yr Undeb Ewropeaidd, cyrff y Llywodraeth a Diwydiant, yn atgyfnerthu ac yn adeiladu ar Fethodoleg Rheoli Prosiectau PRINCE2® – dull strwythuredig er mwyn rheoli prosiectau mewn ffyrdd effeithiol, cyfranogol a thryloyw, a dyma'r safon *de facto* a ddefnyddir yn helaeth gan Lywodraeth y DU ac sy'n cael ei gydnabod a'i ddefnyddio'n eang yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn fyd-eang.

APMG (Grŵp APM) Rhyngwladol yw'r sefydliad achredu ac arholi mwyaf nodedig yn y byd. Mae APMG yn achredu sefydliadau i gyflawni cyrsiau hyfforddi a gwasanaethau ymgynghoriaeth ar gyfer ystod eang o gynlluniau ardystio proffesiynol. Mae eu hanes hir o achredu sefydliadau yn fyd-eang, ynghyd â'u proses asesu drylwyr, yn golygu y caiff sefydliadau sydd wedi'u hachredu gan APMG eu cydnabod am eu hymrwymiad i gyflawni gwasanaeth eithriadol.

Mae portffolio amrywiol o gynlluniau ardystio gan APMG gan gynnwys atebion sy'n adnabyddus yn rhyngwladol am reoli prosiectau, busnes a TG, seiberddiogelwch a phartneriaethau cyhoeddus-preifat.

Mae eu portffolio o gynlluniau ardystio, wedi'i gefnogi gan eu rhwydwaith o sefydliadau APMG-achrededig, yn ei gwneud yn hawdd cael hyd i gwrs hyfforddi neu wasanaeth ymgynghoriaeth gyfagos.

Mae cynlluniau ardystio, gwasanaethau achredu ac arholiadau APMG yn cefnogi eu nod i alluogi sefydliadau a gweithwyr proffesiynol i gael bod ar eu mwyaf effeithiol drwy ddefnyddio'r cymwyseddau craidd a'r methodolegau diweddaraf.

Mae PM4SD yn berthnasol pan fydd angen i sefydliadau cyhoeddus neu breifat gynllunio a rheoli gwaith cyflawni prosiectau fydd ag egwyddorion cynaladwyedd wedi'u plannu ynddyn nhw. Mae PM4SD yn cynnig gwarant i awdurdodau cyhoeddus ac i ddiwydiant y caiff prosiectau eu troi yn gamau gweithredu pendant â rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir a fydd yn arwain at effeithiau positif ar gymunedau lleol, ar yr economi leol a'r amgylchedd naturiol.

Datblygwyd PM4SD mewn partneriaeth â FEST (*Foundation for European Sustainable Tourism*), sefydliad sy'n ymroi i gefnogi llywodraethau, academiâu a sefydliadau i gynllunio, cyflawni a rheoli prosiectau a rhaglenni twristiaeth â chynladwyedd.

Mae'r HOLL wybodaeth uchod wedi'i haddasu, ei chymhwyso a'i dyfynnu'n uniongyrchol oddi ar y gwefannau canlynol. Mae'r hawlfraint, patent, nod masnach, eiddo deallusol yn perthyn i ac wedi'u cydnabod i BOB UN o'r isod. Cedwir pob hawl gan y sefydliadau isod:

- a.) ©Hawlfraint 2018 APM (Association for Project Management). Cedwir pob hawl, gan gynnwys hawlfraint a hawl cronfa ddata. Mae APM yn cadw'r hawl i bob un o'i ddeunyddiau hawlfreintiedig, nodau masnach a brandiau yn ogystal â'r canllawiau ar gyfer eu defnyddio. Mae enwau, delweddau, lluniau a logos sy'n nodi APM, yn nodau perchnogol APM. Oni nodir hynny'n benodol fel arall, mae'r holl ddeunydd ar y safle yn dod o dan bolisi brandio a hawlfraint APM.
- b.) ©2017 Project Management Institute, Inc. Cedwir pob hawl, PMI® Intellectual Property (IP) Guidelines, PMI, logo PMI, Project Management Professional (PMP), logo'r Registered Education Provider, PMBOK, PgMP, PfMP, OPM3, CAPM, PMI-SP, PMI-RMP, PMI-ACP, PMI-PBA, Project Management Journal, PM Network, PMI Today, Pulse of the Profession, logo PMI, logo PMP, PMI Talent Triangle a'r slogan MAKING PROJECT MANAGEMENT INDISPENSABLE FOR BUSINESS RESULTS – mae POB UN o'r rhain yn nod cofrestredig Project Management Institute, Inc.
- c.) PRINCE® - Mae "PRINCE® yn Nod Masnach (cofrestredig) AXELOS Limited. Cedwir pob hawl.."

- d.) PRINCE2 Agile® - Mae "PRINCE2 Agile® yn Nod Masnach (cofrestrredig) AXELOS Limited. Cedwir pob hawl.."
- e.) Mae'r Swirl Logo™ yn nod masnach AXELOS Limited, a ddefnyddir â chaniatâd AXELOS Limited. Cedwir pob hawl.
- f.) Mae logo *APMG-International Agile Project Management and Swirl Device* yn nod masnach *The APM Group Limited*.
- g.) Mae PM4SD™ yn nod masnach FEST (*Foundation for European Sustainable Development*).
- h.) Mae logo PM4SD yn Nod Masnach Cofrestrredig FEST (*Foundation for European Sustainable Development*).

Bydd y rhaglen hon yn archwilio pob dull ac yn rhoi gwybodaeth a fydd yn galluogi'r myfyrwyr i werthuso gofynion allweddol ar gyfer eu hanghenion a'u gofynion nhw eu hunain ac, wedyn, i ystyried a defnyddio'n effeithiol derminolegau, dulliau, prosesau a ieithoedd rheoli prosiectau perthnasol yn eu sefydliad nhw yn y dyfodol, ar gyfer prosiectau, rhaglenni a phortffolios eu cleientiaid posib, rhanddeiliaid neu ddiwydiant yn fwyaf cyffredin yn y dyfodol. Bydd hefyd yn rhoi gwybodaeth o ran y cymwysterau neu'r statws proffesiynol y gellir eu hennill drwy bob corff, o ran unigolion a sefydliadau. Bydd cyfarwyddwr y rhaglen a thiwtoriaid y modiwlau yn gallu cynnig arweiniad a gwybodaeth ynglŷn ag aelodaeth a chymwysterau o fewn y tri chorff yma.

Fel y gallwn werthfawrogi, mae APM (*Association of Project Management*) a PMI (*Project Management Institute*) yn hyrwyddwyr enwog, gyda'r gorau yn y byd, o ran arferion rheoli prosiectau, rhaglenni a phortffolios ar draws sectorau, diwydiannau a disgyblaethau.

### **Project Management Institute ([www.pmi.org](http://www.pmi.org))**

PMI (*Project Management Institute*) yw'r brif gymdeithas aelodaeth broffesiynol ddi-elw yn y byd ar gyfer y proffesiwn rheoli prosiectau, rhaglenni a phortffolios. Sefydlwyd PMI yn 1969 ac mae'n cynnig gwerth i fwy na 2.9 miliwn o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn bron bob gwlad yn y byd drwy eiriolaeth, cydweithredu, addysg ac ymchwil ar draws y byd. Mae PMI yn hybu gyrfaedd, yn gwella llwyddiant sefydliadau ac yn tyfu eto y proffesiwn rheoli prosiectau drwy ei safonau, tystysgrifau, adnoddau, offer, ymchwil academaidd, cyhoeddiadau, cyrsiau datblygiad proffesiynol, a chyfleoedd rhwydweithio a gydnabyddir yn fyd-eang. Mae HSI (*Human Systems International*) yn rhan o deulu PMI ac mae'n cynnig gwasanaethau meincnodi ac asesu sefydliadol i fusnesau pwysig ac i lywodraethau ac mae *ProjectManagement.com* a *ProjectsAtWork.com* yn creu cymunedau byd-eang ar-lein sy'n cynnig mwy o adnoddau, offer gwell, rhwydweithiau mwy o faint a phersbectifau ehangach (darn o [www.pmi.org](http://www.pmi.org), cyrchwyd Mehefin 19<sup>eg</sup> 2018).

Cewch gyfle i danysgrifio yn aelod-fyfyriwr o PMI. Os ydych wedi ymrestru yn amser llawn ar raglen radd mewn coleg neu brifysgol sydd ag achrediad yr Unol Daleithiau, neu gyfwerth yn fyd-eang, rydych yn gymwys i fod yn aelod-fyfyriwr PMI. Caiff cyhoeddiadau eich aelodaeth eu hanfon i chi yn electronig i'ch cyfeiriad ebost. Ni fydd y cynnig hwn yn cynnwys cyhoeddiadau print a gaiff eu hanfon atoch drwy'r post. Ar gyfer 2018 bydd yn costio \$32 i ymuno a \$32 i adnewyddu. Gallech ystyried hefyd gael Aelodaeth Siapter (mae Siapter DU yn weithredol iawn yn hyrwyddo rheoli prosiectau). Bydd y ffioedd yn amrywio, yn dibynnu ar y Siapter. Gallwch gael hyd i wybodaeth ynglŷn ag aelodaeth a Siapter yn agos i chi o'r ddolen hon: <http://www.pmi.org/membership/membership-types-of-memberships.aspx>

Mae gan gymhwyster PMI PMP bresenoldeb byd-eang â mwy na 694,536 o unigolion â PMP gweithredol. Mae'n gryf iawn yn UDA, Canada, Mecsico, De America, Asia a llawer rhan arall o'r byd. I gael bod yn gymwys i gael cymhwyster PMP, bydd rhaid i chi foddhau rhai gofynion profiad proffesiynol ac addysgol. Rhaid i chi fod wedi cronni'r holl brofiad rheoli prosiectau yn yr wyth mlynedd cyn cyflwyno eich cais.

Felly bydd eich penderfyniad yn dibynnu mewn gwirionedd ar ble y byddwch yn gweld eich gyrfa rheoli prosiectau yn mynd â chi. Os bydd o fewn y DU, yna dilynwch lwybr APM; os byddwch am weithio y tu allan i'r DU, neu os byddwch am weithio i gwmni mawr rhyngwladol sydd wedi'i leoli yn UDA, ewch am PMP. Gall fod yn fuddiol gwneud yr APMP yn gyntaf ac yna'r PMP wedi i chi fagu'r profiad. Mae'r cyrff gwybodaeth yn ddigon agos at ei gilydd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar y ddolen hon:

<http://www.pmi.org/~media/PDF/Certifications/handbooks/project-management-professional-handbook-pmp.ashx>

### **Association of Project Management (www.apm.org.uk)**

Mae'r APM arobryn yn ymrwymedig i ddatblygu a hyrwyddo rheoli prosiectau a rhaglenni drwy ei 5 Dimensiwn Proffesiynoldeb. Mae nifer o ffyrdd y gallwch elwa o'r hyn rydym yn ei wneud, gan gynnwys:

- aelodaeth
- cymwysterau
- digwyddiadau
- cyhoeddiadau
- gwasanaethau ar-lein

Mae APM yn elusen gofrestredig gyda mwy na 21,650 o unigolion a 570 o aelodau corfforaethol; dyma felly y corff proffesiynol mwyaf o'i fath yn Ewrop. Yn rhan o'i strategaeth i godi ymwybyddiaeth a safonau yn y proffesiwn, mae wrthi ar hyn o bryd yn gwneud cais i gael Siarter Brenhinol. Datganiad cenhadaeth APM yw *"To provide leadership to the movement of committed organisations and individuals who share our passion for improving project outcomes"* (dyfynnwyd o [www.apm.org.uk](http://www.apm.org.uk), cyrchwyd Mehefin 19<sup>eg</sup> 2018). Cewch gyfle hefyd i danysgrifio yn aelod-fyfyriwr i APM. Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar y ddolen hon:

<https://www.apm.org.uk/Grades>

Cymwysterau APM yw'r rhai sy'n cael eu cydnabod fwyaf yn y DU a'r rhan fwyaf gan aelodau unigol a chorfforaethol APM. Mae ystod eang o gymwysterau ar gael, yn amrywio o lefel ragarweiniol hyd at reolwyr prosiectau cymhleth. Mae'r APMP yn gymhwyster lefel sylfaen sy'n cwmpasu elfennau sylfaenol rheoli prosiectau a fydd yn arwain at arholiad ysgrifenedig 3-awr. Mynnwch weld y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chymwysterau proffesiynol a chysylltiadau proffesiynol mewn Rheoli Prosiectau sydd ar gael yma: <https://www.apm.org.uk/qualifications-and-training/> (cyrchwyd Mehefin 19<sup>eg</sup> 2018).

Cafodd y Rhaglen hon ei dylunio a'i datblygu â'r cynnwys wedi'i alinio i gorff wybodaeth a fframwaith datblygu cymwyseddau APM a PMI ac mae iddi fin cystadleuol go iawn ond hefyd agwedd mwy cyfannol ac effeithiol tuag at reoli prosiectau yn eich astudiaethau a'ch dysgu gyda ni.

**Bydd eich dysgu gyda ni yn mynd mewn ffordd go iawn yn ôl i'r gweithle. Rydym yn gobeithio'n fawr y byddwn yn eich paratoi ar gyfer gyrfa lwyddiannus ym myd cydweithredol prosiectau, rhaglenni a phortffolios.**